

# **Cais am hysbysiad ymlaen llaw ynghylch datblygiad ym maes amaethyddiaeth neu goedwigaeth – tanc pysgod arfaethedig (cawell)**

*Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995*

*Atodlen 2, rhannau 6 a 7*

## **1. Manylion yr ymgeisydd**

Nodwch fanylion yr ymgeisydd gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## **2. Manylion yr asiant**

Nodwch fanylion yr asiant gan gynnwys teitl ac enw llawn. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n berthnasol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir, y wlad a'r côd post llawn hefyd.

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant (h.y. rhywun sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd), bydd pob gohebiaeth yn cael ei hanfon at yr asiant, gan gynnwys y llythyr penderfyniad.

## **3. Cyfeiriad y safle**

Nodwch gyfeiriad post llawn y safle. Nodwch rif a/neu enw'r tŷ/fflat (os yw hynny'n briodol) ynghyd ag enw'r stryd yn y maes Cyfeiriad stryd. Dylid nodi'r dref, y sir a'r côd post llawn hefyd. Os yw'r cais yn ymwneud â thir agored, disgrifiwch leoliad y tir mor glir ag sy'n bosibl (e.e. *'Y tir y tu ôl i rif 12 - 18 Stryd Fawr'*) neu darparwch gyfeirnod grid.

Pan fyddwch yn cyflwyno cynllun safle, argymhellir y dylai'r cynllun gael ei lunio ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500 (neu fwy) ac y dylai ddangos o leiaf dwy ffordd a enwir ynghyd â'r adeiladau sydd o amgylch y safle. Dylid nodi rhifau neu enwau'r adeiladau a ddangosir ar y cynllun er mwyn sicrhau bod union leoliad y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn cael ei ddangos yn glir.

*...parhad ar y dudalen nesaf...*

Rhaid tynnu llinell goch yn glir ar y cynllun i ddangos ymyl y safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef. Dylai'r safle a ddangosir gynnwys yr holl dir sydd ei angen i gyflawni'r datblygiad arfaethedig (e.e. y tir sydd ei angen er mwyn mynd i mewn i'r safle o briffordd gyhoeddus, creu lleiniau gwelededd (mynedfa o amgylch cyffordd neu fynedfa arall, a ddylai fod yn ddirwysr), tirlunio, parcio, a chreu ardaloedd agored o amgylch adeiladau).

Rhaid tynnu llinell las ar y cynllun o amgylch unrhyw dir arall y mae'r ymgeisydd yn berchen arno sy'n agos i'r safle y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu sy'n ffinio â'r safle hwnnw.

Rhaid llunio pob cynllun yn ôl graddfa fetrig, rhaid i unrhyw fesuriadau gael eu rhoi mewn metrau, a dylid cynnwys bar graddfa ar y cynllun hefyd. Dylai pob cynllun ddangos i ba gyfeiriad y mae'r Gogledd.

#### **4. Tanc pysgod arfaethedig (cawell)**

Ystyr ffermio pysgod yw *'bridio, magu neu gadw pysgod neu bysgod cregyn (sy'n cynnwys unrhyw fath o gramennog neu folwsg)'*. Yn ôl Erthygl 10 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, mae'n ofynnol ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd cyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n ymwneud â ffermio pysgod (boed y datblygiad hwnnw at ddiben cynhyrchu bwyd neu unrhyw ddiben arall).

#### **5. Datblygiadau ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth**

Ni chaniateir datblygiadau ar ddarnau unigol o dir llai na hecтар o faint ar ddaliadau sydd â chyfanswm o dros bum hecтар. Ni chaniateir datblygiadau ar ddarnau unigol o dir llai na 0.4 hecтар o faint ar ddaliadau sydd â llai na phum hecтар. Darn unigol o dir yw tir a gaiff ei wahanu gan briffordd gyhoeddus neu dir y mae rhywun arall yn berchen arno, er enghraifft.

'Ffordd fetlin' yw ffordd ag wyneb caled sy'n cynnwys asffalt, concrit, cerrig palmant, brics, cerrig crwn ac ati.

#### **6. Gofynion cais am ganiatâd cynllunio a gofynion lleol**

Ceir gofynion ar ddwy lefel – gofynion cenedlaethol a gofynion lleol:

- **Cenedlaethol** – Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau bod y ffurflenni wedi'u llenwi'n gywir a bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno.
- **Lleol** – Bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi cynhyrchu dogfen (a fydd ar gael fel arfer ar ei wefan) sy'n nodi unrhyw wybodaeth benodol, yn ychwanegol at y gofynion cenedlaethol, y bydd angen ei chyflwyno gyda'r cais.

Gallai methu llenwi'r ffurflen yn gywir neu fethu darparu lluniadau digon manwl neu wybodaeth ategol berthnasol arall olygu bod eich cais yn cael ei anfon yn ôl atoch am ei fod yn annilys.

## **7. Datganiad**

Llofnodwch eich cais a nodwch y dyddiad arno.

## **8. Manylion cyswllt yr ymgeisydd**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd.

## **9. Manylion cyswllt yr asiant**

Rhowch fanylion cyswllt ar gyfer yr asiant.

## **10. Ymweld â'r safle**

Efallai y bydd y swyddog achos yn gofyn am gael mynd i mewn i'r safle (h.y. y safle lle bydd y gwaith arfaethedig yn cael ei wneud). Darparwch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen gwneud apwyntiad. Bydd hynny'n helpu'r cyngor i ddelio â'ch cais cyn gynted ag sy'n bosibl.